Y Comisiwn Etholiadol

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau

PEF Ar-lein: Cychwyn arni

Mae'r ddogfen hon ar gyfer sefydliadau ac unigolion a reoleiddir sydd eisiau gwybod sut i ddefnyddio ein cronfa ddata ddiogel – PEF Ar-lein.

Cynnwys:

Manteision gweithio gyda PEF Ar-lein

Rôl gweinyddwr PEF Ar-lein

Os ydych chi eisoes wedi cofrestru gyda ni

Os ydych chi eisiau cofrestru gyda ni

Rheoli eich cyfrifon defnyddwyr

Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' pan fyddwn yn cyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoleiddio penodol. Rydym yn defnyddio '**dylid**' ar gyfer eitemau a ystyriwn i fod yn isafswm ymarfer da, ond nad ydym yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllaw hwn, ond os byddwch, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Ein hymagwedd i orfodi

Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddio, gallech chi neu'ch sefydliad fod yn amodol i sancsiynau sifil neu droseddol. Fe ddewch o hyd i ragor o wybodaeth am ymagwedd y Comisiwn i orfodi yn www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

PEF Ar-lein: cychwyn arni

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon:

Pleidiau gwleidyddol, sefydliadau aelodaeth, trydydd partïon cydnabyddedig a chyfranogwyr a ganiateir mewn refferendwm sydd eisiau defnyddio PEF Ar-lein i:

- gofrestru gyda ni
- gynnal manylion cofrestru
- gyflwyno adroddiadau cyfraniadau a benthyciadau a
- chyflwyno cofnodion gwariant ymgyrch i ni

Mae'r ddogfen yn trafod:

- Cyflwyniad i PEF Ar-lein
- Gweithio gyda PEF Ar-lein
- Dewis gweinyddwr
- Cychwyn arni os ydych chi eisoes wedi cofrestru gyda ni
- Cychwyn arni os ydych yn cofrestru plaid neu ymgyrchydd newydd
- Rheoli eich cyfrifon defnyddwyr

Dogfennau perthynol:

- Cyflwyniad i gofrestru plaid wleidyddol
- Cyflwyniad i fod yn drysorydd plaid
- Cyflwyniad i ymgyrchwyr di-blaid
- Cyflwyniad i ymgyrchu mewn refferendwm

Ffurflenni ac esboniadau:

- Ffurflen PEFO1: Enwebu gweinyddwr PEF Ar-lein
- Ffurflen PEFO2: Newid gweinyddwr PEF Ar-lein

2

Crynodeb

Os ydych yn sefydlu plaid wleidyddol neu'n bwriadu ymgyrchu mewn etholiadau neu refferenda, efallai y bydd angen i chi gofrestru gyda ni.

PEF Ar-lein yw ein cronfa ddata ddiogel. Gallwch gwblhau cofrestriad ac wedi cofrestru cynnal eich manylion cofrestredig yn defnyddio PEF Ar-lein. Mae hefyd yn eich caniatáu i gyflwyno adroddiadau rhoddion a benthyciadau statudol a chofnodion gwariant ymgyrchu yn electronig.

Cyflwyniad

Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau felly rydym yn:

- cofrestru pleidiau gwleidyddol ac yn cynnal cofrestrau o bleidiau gwleidyddol ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon.
- cofrestru ymgyrchwyr gwleidyddol eraill ac
- yn cyhoeddi manylion o ffynonellau cyllid pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr eraill a sut y maent yn ei wario

PEF Ar-lein yw ein cronfa ddata ddiogel o gofrestrau i gofnodi a chyhoeddi'r wybodaeth hon.

Am wybodaeth ar gofrestru pleidiau gwleidyddol neu ymgyrchwyr gweler:

- Cyflwyniad i gofrestru plaid wleidyddol
- Cyflwyniad i ymgyrchwyr di-blaid
- Cyflwyniad i ymgyrchu mewn refferendwm

Sut fydd gweithio gyda PEF Ar-lein o fudd i chi?

Unwaith y bydd eich cyfrif defnyddiwr wedi ei sefydlu gallwch gael mynediad at ac addasu eich manylion cofrestredig. Gallwch hefyd gysodi a chyflwyno cofnodion statudol.

Gan eich bod yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r gronfa ddata, mae gennych fwy o reolaeth dros yr wybodaeth yr ydych yn darparu a gallwch adalw eich gwybodaeth bresennol yn y system.

Er enghraifft, mae'n bosibl cynnal rhestr o roddwyr neu gyflenwyr ac adalw eu manylion fel nad oes rhaid i chi ailgyflwyno'r wybodaeth hon i gwblhau cofnod rhoddion newydd.

4

Gweithio gyda PEF Ar-lein

Pwy ddylai fod yn weinyddwr i chi?

Pwysig

Mae'r system yn cydnabod pedwar math gwahanol o ddefnyddiwr gyda gwahanol lefelau o fynediad. Mae'n bwysig eich bod yn ystyried pwy ydych eisiau i fod yn **Weinyddwr PEF Ar-lein** i chi cyn i chi wneud cais i ddefnyddio PEF Ar-lein.

Gallwch ddewis un o'r swyddogion cofrestredig yn eich sefydliad e.e. trysorydd y blaid mewn plaid wleidyddol, neu'r sawl sy'n gyfrifol am drydydd parti a gydnabyddir. Ond mae'n rhaid i chi ddewis swyddog cofrestredig fel gweinyddwr.

Y gweinyddwr yw'r 'prif ddefnyddiwr' sy'n gallu cyflawni'r holl swyddogaethau yn y system. Maent yn:

- Gweinyddu'r defnyddwyr eraill
- Ailosod cyfrineiriau
- Cyflwyno cofnodion statudol
- Addasu manylion y sefydliad

Pwy arall all ddefnyddio PEF Ar-lein?

Defnyddiwr

Mae hwn yn gategori cyffredinol. Gall defnyddwyr:

- Weld manylion cofrestredig
- Paratoi ond nid cyflwyno cofnodion statudol

Swyddog plaid

Dylid defnyddio'r categori hwn ar gyfer pobl gyda rôl benodedig. Er enghraifft, swyddi'r Arweinydd, Swyddog enwebu, Trysorydd y blaid neu Swyddog ymgyrchoedd mewn plaid wleidyddol neu'r swydd Unigolyn cyfrifol ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn rhan o blaid.

Gall y gweinyddwr ddynodi rolau penodol i unigolion yn y categori hwn fel bod eu mynediad yn y system yn cyfateb i'w rôl ddynodedig.

Am ragor o wybodaeth ar rolau swyddogion cofrestredig, gweler:

- Cyflwyniad i gofrestru plaid wleidyddol
- Golwg gyfredinol ar ymgyrchoedd di-blaid
- Trosolwg o ymgyrchoedd refferendwm

Swyddog uned gyfrifo (pleidiau gwleidyddol yn unig)

Mae'r math hwn o ddefnyddiwr ar gyfer Trysorydd Uned gyfrifo neu Ail Swyddog. Mae ganddynt fynediad cyfyngedig i wybodaeth plaid yn y system, ond mae'n eu caniatáu i baratoi a chyflwyno'r wybodaeth statudol ar gyfer eu huned gyfrifo.

6

Cychwyn arni

Os ydych chi eisoes wedi cofrestru gyda ni

Mae angen i chi sefydlu swydd Gweinyddwr PEF Ar-lein trwy gwblhau Ffurflen PEFO 1: Enwebu gweinyddwr PEF Ar-lein. Rhaid i chi ddarllen yr amodau a thelerau defnydd cyn cwblhau'r ffurflen.

Gallwch anfon y ffurflen wedi ei llofnodi atom. Neu, byddwn yn derbyn copi o'r ffurflen wedi ei llofnodi trwy ffacs neu e-bost. Gweler y manylion cyswllt ar ddiwedd y Ffurflen PEFO 1.

Byddwn yn anfon cadarnhad atoch fod y cyfrif Gweinyddwr PEF Ar-lein yn weithredol trwy e-bost.

Gallwch gychwyn defnyddio PEF Ar-lein cyn gynted ag y byddwch yn derbyn yr e-bost cadarnhau, a fydd yn cynnwys mewngofnodiad a chyfrinair dros dro y gallwch newid wedi i chi fewngofnodi am y tro cyntaf.

Rydym eisoes wedi creu cyfrifon defnyddwyr ar gyfer swyddogion cofrestredig pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr ar y cofrestrau. Gall y Gweinyddwr PEF Ar-lein ysgogi'r cyfrifon hyn a darparu mynediad i unrhyw ddefnyddwyr eraill.

1. Dilyn y dolenni o PEF Ar-lein trwy ddethol y dewis **mewngofnodi i e-ffeilio**. Bydd hyn yn mynd â chi i sgrin newydd.

2. Rhowch y mewngofnodiad a chyfrinair dros dro a anfonwyd atoch yn yr e-bost cadarnhau yn y blwch a labelwyd '**Mewngofnodi i PEF Ar-lein**'.

3. Gallwch nawr newid y manylion dros dro hyn ac ysgogi cyfrifon pobl eraill – gweler 'Rheoli eich cyfrifon defnyddwyr' (tudalen 8).

Wedi i chi fewngofnodi i'r system, chwiliwch am y '?' i gael mynediad at gymorth ar y sgrin.

Os ydych yn cofrestru plaid neu ymgyrchydd newydd

Rydych angen cyfrif defnyddiwr gweithredwr cyn y gallwch gofrestru. Gallwch greu defnyddiwr newydd trwy ddilyn y dolenni o PEF Ar-lein.

1. Dewiswch **fewngofnodi i e-ffeilio** a fydd yn mynd â chi at sgrin newydd.

2. Dewiswch y botwm **cofrestru nawr** ar waelod y dudalen a fydd yn mynd â chi i'r dudalen gofrestru.

3. Cwblhewch y ffurflen ar y sgrin trwy ddilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrin – fe ofynnir i chi am fanylion personol, gohebu a diogelwch. Wedi cwblhau, cliciwch ar **creu defnyddiwr.**

Mae'r defnyddiwr hwn wedi ei sefydlu fel y **Gweinyddwr PEF Ar-lein**, ond byddwch yn gallu addasu'r manylion hyn os oes angen – gweler rheoli defnyddwyr.

Sylwer: pan fyddwch yn creu defnyddiwr newydd, rydych yn cytuno i amodau a thelerau defnyddwyr y safle.

Pwysig

Wedi i chi greu'r cyfrif defnyddiwr a mewngofnodi, bydd gennych y dewis o gofrestru plaid wleidyddol newydd neu ymgyrchydd gwleidyddol.

Chwiliwch am y '?' i gael mynediad at gymorth ar y sgrin.

8

Rheoli eich cyfrifon defnyddwyr

Cyfeiriadau e-bost yw dynodwyr unigryw defnyddwyr PEF Ar-lein - dim ond un cyfrif defnyddiwr a ellir ei atodi i gyfeiriad e-bost.

Ysgogi defnyddiwr presennol

Gweinyddwr PEF Ar-lein

Gall y Gweinyddwr PEF Ar-lein ysgogi defnyddwyr presennol trwy'r dewis **Rheoli defnyddwyr** ar y ddewislen.[Insert hyperlink to screen shot]

1. Cliciwch ar y dewis **Rheoli defnyddwyr** ac fe ddylech weld rhestr o Ddefnyddwyr presennol, Swyddogion Plaid a Swyddogion Uned Gyfrifo ar y sgrin.

2. Dewiswch yr unigolyn a chlicio ar **gweld** yng ngholofn olaf eu rhestriad.

3. Defnyddiwch y ddolen **Newid cyfeiriad e-bost** i ychwanegu cyfeiriad e-bost y defnyddiwr hwn.

4. Dad-diciwch y blwch sydd wedi ei labelu '**Peidiwch â chysylltu trwy e-bost**'.

5. Cliciwch ar **cadw**.

Bydd y defnyddiwr yn derbyn e-bost sydd wedi ei greu yn awtomatig yn cynnwys manylion diogelwch dros dro.

Y defnyddiwr

Mae'ch cyfrif yn barod i'w defnyddio unwaith y derbyniwch yr e-bost yn cynnwys eich manylion diogelwch dros dro.

1. Dilynwch y ddolen yn yr e-bost a defnyddio'r manylion diogelwch dros dro i fewngofnodi.

2. Byddwch yn cael eich ysgogi i newid eich enw defnyddiwr ac ychwanegu cwestiwn ac ateb diogelwch. Dewiswch **cadw**.

3. Fe'ch cyflwynir â'ch tudalen proffil defnyddiwr. Gwiriwch y manylion a gwneud unrhyw addasiadau. Dewiswch **cadw**.

Gallwch nawr ddefnyddio PEF Ar-lein.

Creu defnyddiwr newydd

Gall eich Gweinyddwr PEF Ar-lein greu cymaint neu cyn lleied o ddefnyddwyr newydd ag sydd angen. Defnyddiwch yr opsiwn **Rheoli defnyddwyr** ar y ddewislen.[Insert hyperlink to screen shot].

1. Cliciwch ar **ychwanegu defnyddwyr** – bydd hyn yn mynd â chi at sgrin newydd 'Enwebu defnyddiwr'. [Insert hyperlink to screen shot].

2. Rhowch gyfeiriad e-bost y defnyddiwr newydd a chlicio ar '**creu defnyddiwr**' i sefydlu cyfrif defnyddiwr newydd gyda mynediad at PEF Ar-lein.

3. Fe'ch cyflwynir â'ch tudalen manylion Defnyddiwr. Cwblhewch y meysydd gofynnol – mae'r rhain wedi eu nodi â seren (*)

Swyddogion cofrestredig sy'n dewis peidio defnyddio PEF Ar-lein

Os nad ydych eisiau derbyn gohebiaeth trwy e-bost na defnyddio PEF Ar-lein, gallwch ddewis dirprwyo'ch cyfrifoldeb ar-lein yn awtomatig i'r gweinyddwr PEF Ar-lein trwy ofyn i'r gweinyddwr adael y blwch '**Peidiwch â chysylltu trwy e-bost**' wedi ei dicio yn eich proffil defnyddiwr.

Efallai y bydd angen i chi lofnodi ffurflenni a datganiadau a grëwyd yn awtomatig gan PEF Ar-lein yn rhan o gyflawni eich rôl. Bydd angen i'ch gweinyddwr argraffu'r ffurflenni a datganiadau hyn i chi eu llofnodi.

Pwysig

Chi sy'n parhau i fod yn gyfrifol am gael dealltwriaeth o unrhyw ffurflenni neu ddatganiadau y byddwch yn llofnodi. Efallai y bydd angen i chi gysylltu â'ch gweinyddwr PEF Ar-lein i sicrhau bod gennych ddealltwriaeth lawn cyn i chi lofnodi datganiad.

Newid y gweinyddwr PEF Ar-lein

PEFO 2

Os ydych eisiau newid eich gweinyddwr PEF Ar-lein, ni allwch wneud hyn yn PEF Ar-lein. Rhaid i chi gwblhau Ffurflen PEFO 2: Newid gweinyddwr PEF Ar-lein.

10

Sut allwn ni helpu

Cewch ragor o wybodaeth yn y dogfennau canllaw a awgrymwyd yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein hystod lawn o ganllaw ac adnoddau cyfredol ar ein gwefan.

Os yw'n haws, gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 020 7271 0616
  pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0131 225 0200
  infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 029 2034 6800
  infowales@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 028 9089 4020
  infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Dewch i'n gwefan yn www.electoralcommission.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllaw – anfonwch e-bost atom yn: pef@electoralcommission.org.uk

Cyfieithiadau a fformatau eraill

Am wybodaeth ar gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall neu fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk